WG35 S.146

Y Cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth.

# MARWNAD

Y

# PARCH. JOHN PHILLIPS,

## BANGOR,

Gweinidog yn Nghorff y Methodistiaid Calfinaidd, yr hwn a fu farw Hydref y 9fed, 1867, ac a gladdwyd yn Llaneugrad, Mon, y 14eg o'r un mis, yn 57 mlwydd oed, wedi bod yn y weinidogaetham 39 mlynedd.

Beth yw'r cwmwl du ymdaenodd
Dros derfynau Cymru lân,
Beth yw'r achos fod fath dristwch
Yn mhlith meib a merched cân ?
Pa'm y gwibia teulu Seion
Mewn galarwisg yn mhob tref,
Llygad sych nid oes i'w chanfod
Mewn un ardal is y nef.

Dyma'r achos, achos uchel
I bob eglwys wylo'n brudd,
Angau aeth â Phillips Bangor
I'w roi'n dawel yn y pridd ;
Gwr fu'n gwylio muriau Seion,
Galw pawb i dŷ eu Tad,
Ac yn fywyd i'r Trefnyddion
Trwy derfynau tref a gwlad.

Ganwyd e'n Mhontrhydfendigaid,
Lle bu'n treulio boreu'i oes,
Yno rhoes ei hun i fyny
I lwyr gredu'n Nghrist a'i groes;
A'i dalentau'n ymddysgleirio
Fwyfwy beunydd trwy'r holl le,
Fel y dwedai'r wlad o gwmpas
Fod rhyw fawredd ynddo fe.

Galwyd arno i bregethu
Pan nad oedd ond deunaw oed,
Ac ni welwyd yn y pulpud
Ei gymhwysach ef erioed;
'Roedd ei eiriau'n toddi'r galon,
A'i ddawn yn gyflawn fel y môr,
Ac mewn taerni y gwahoddai
Bawb i geisio'r Arglwydd Iôr.

'Roedd ei lais fel udgorn arian
Yn cynhyrfu tyrfa fawr,
A'i bregethau mor ddifrifol
Yn trywanu calon cawr;
Plygai'r taeog anghredadyn,
A'r dyn cyndyn wnai fel oen,
Pan yn dweyd am gariad Iesu
Ar y groes mewn ing a phoen.

Dilyn wnaeth gyfarwyddyd Iesu
Trwy fyn'd allan i'r holl fyd,
I bregethu Iawn Calfaria,
A dyrchafu'r aberth drud;

Gwelai'n fynych hen bechadur
  Ger ei fron yn gwaeddi'n drist,
"Beth a wnaf fel b'wyf gadwedig,"
  Ac yn galw yn daer ar Grist.

Cadarn dŵr i'r Methodistiaid
  Fuodd ddeugain mlynedd faith,
A llafurus gorff ac enaid
  Yn y winllan wrth ei waith ;
Blaenaf oedd yn mhob Cymanfa,
  A'i bregethau'n fanna'r nef,
A dyoddefaint y Messia
  Ei destunau penaf ef.

Bu'n llafurus am flynyddau
  Er cael dysg i blant y wlad,
A chael Coleg i'r Trefnyddion
  I gyfranu addysg rad ;
Casglodd filoedd maith o bunnau
  Trwy ddiwydrwydd ar ei daith,
Ac fe godwyd Coleg Bangor
  Fel yn wobr am ei waith.

Bu'n ben-athraw yn y Coleg
  Nes machludo'i haul brydnawn,
Ac yr ydoedd fel Gamaliel
  Mewn gwybodaeth, dysg, a dawn ;
Dygodd berlau pur i'r golwg,
  Cedyrn weision Brenin hedd,
I gyhoeddi gair y bywyd
  'Nol ei fyned ef i'w fedd.

Ond y nawfed dydd o Hydref
  Gofir mewn galarnad trist,
Pan y daeth y genad nefol
  I'w gymeryd ef at Grist;
Engyl fyrdd mewn cerbyd tanllyd
  Ddygai'i enaid fry i'r nef,
Ac mae heddyw'n dyblu'r anthem
  Yn soniarus "Iddo Ef."

Pan yn myn'd â'i gorff i'r beddrod,
  O! 'r fath dyrfa ddoent ynghyd,
Pedwar cant ar ddeg ymgasglent,
  A gofidus oent i gyd;
Gweinidogion a phregethwyr
  O bob enwad yn rhoi parch,
A phob un o'r rhain yn tywallt
  Dagrau gloywon ar ei arch.

A fydd i'r Duw fu'n Geidwad iddo
  Ado'i blant mewn galar mawr?
A gaiff teulu Seion wylo
  Heb un bugail ar y llawr?
Arglwydd tirion, galw eto
  Ddynion mawrion yn y wlad,
Fyddo'n ddewr fel PHILLIPS BANGOR,
  O blaid achos Crist a'i wa'd.